MEDI 2026

Gwnewch Wahaniaeth gyda ni

Make a Difference with us

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



PENODIADAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU

# CANLLAWIAU I YMGEISWYR

# Croeso a chyflwyniad

## Diolch ichi am eich diddordeb mewn penodiad cyhoeddus yng Nghymru.

Mae unigolion sy'n cael eu penodi i swyddi cyhoeddus yn chwarae rôl hanfodol o ran llywio cyrff cyhoeddus, llunio penderfyniadau er budd y cyhoedd, a chefnogi gwasanaethau sy'n bwysig i bobl a chymunedau ledled Cymru.

Gwyddom y gall gwneud cais am benodiad cyhoeddus deimlo'n anghyfarwydd, yn enwedig os mai dyma'r tro cyntaf ichi wneud hynny. Nod y canllawiau hyn yw esbonio'n glir ac yn agored sut y caiff ymgeiswyr eu hasesu, yr hyn y mae paneli yn chwilio amdano, a beth y gallwch ei ddisgwyl ar bob cam o'r broses.

Bydd aelodau paneli yn asesu ymgeiswyr yn deg ac yn gyson yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig ar gyfer y rôl, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thystiolaeth glir. Caiff penderfyniadau eu gwneud yn dryloyw, yn gynhwysol ac yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus.

**Mae'r fframwaith asesu yn esbonio'r canlynol:**

- Yr hyn y mae paneli yn ei asesu ar bob cam o'r broses
- Sut y caiff gwahanol fathau o dystiolaeth eu hystyried
- Y dull o benderfynu ar argymhellion a'u cofnodi
- Y gwahaniaeth rhwng argymhellion paneli a phenderfyniadau Gweinidogion.

Caiff ymgeiswyr eu hasesu ar eu profiadau, eu sgiliau, eu hymddygiad a'u crebwyll cyffredinol, nid ar eu perfformiad yn ystod y cyfweliad yn unig. Nod y dull hwn yw sicrhau cysondeb, cydnabod sgiliau trosglwyddadwy a llwybrau gyrfa amrywiol, a gwerthfawrogi profiadau bywyd perthnasol lle bo hynny'n briodol.

Bydd paneli yn ystyried tystiolaeth o bob rhan o'r broses, gan gynnwys ceisiadau, cyfweliadau ac asesiadau er mwyn sicrhau bod argymhellion yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac y gellir eu hesbonio'n glir.



# Y Camau

# Y broses recriwtio

Mae'r broses recriwtio yn dilyn nifer bach o gamau clir. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd.

**Cam 0**
Cymhwystra rhagofynnol
(Meini prawf sylfaenol yn unig)

↓

**Cam 1**
Ffurflen gais
(Pob un o'r 4 maes asesu)

↓

**Cam 2**
Cyfweliad ac ymarfer Efelychu Bwrdd
(Pob un o'r 4 maes asesu)

↓

**(Dewisol)**
Elfennau Asesu ychwanegol
(Dim ond pan fydd cymhlethdod y rôl yn gofyn am hynny)

# Sut y cewch eich asesu – cipolwg

Ar bob cam o'r broses, caiff ymgeiswyr eu hasesu mewn ffordd gyson a theg:

- Cewch eich asesu yn seiliedig ar bedwar maes cyffredinol, nid ar eich arbenigedd technegol.
- Bydd angen ichi fodloni'r safon ofynnol ym mhob un o'r pedwar maes.
- Bydd paneli yn ystyried tystiolaeth o bob rhan o'r broses, yn hytrach na dibynnu ar y cyfweliad yn unig.
- Cewch eich asesu yn erbyn y safon ar gyfer y rôl, nid yn erbyn ymgeiswyr eraill.



## Cam 0 – Meini prawf rhagofynnol (cymhwystra)

Mae rhai rolau yn cynnwys gofynion penodol sy'n penderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael ei ystyried ar gyfer penodiad. Pan fydd hyn yn berthnasol, gelwir y rhain yn feini prawf rhagofynnol.

Defnyddir meini prawf rhagofynnol i gadarnhau cymhwystra yn unig. Nid ydynt yn rhan o'r asesiad o'ch ymddygiad, eich profiad na'ch potensial, ac ni chânt eu sgorio.

**Gall enghreifftiau o feini prawf rhagofynnol gynnwys:**

- Cymhwyster cyfreithiol neu reoleiddiol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- Profiad blaenorol o gadeirio Bwrdd ar gyfer corff cyhoeddus risg uchel iawn
- Y gallu i weithredu yn Gymraeg ar lefel Bwrdd, os yw hyn yn hanfodol i'r rôl.

**Os bydd meini prawf rhagofynnol yn berthnasol i rôl:**

- Cânt eu nodi'n glir yn yr hysbyseb a'r wybodaeth i ymgeiswyr
- Cânt eu gwirio cyn i geisiadau gael eu sifftio
- Os na fyddwch chi'n bodloni'r meini prawf rhagofynnol, ni fyddwch yn gymwys i symud ymlaen.

Ni ellir newid y meini prawf hyn ar ôl i rôl gael ei hysbysebu, ac ni chynhelir unrhyw asesiad pellach ar y cam hwn.

## Cam 1 – Ceisiadau a sifftio

Ar y cam hwn, caiff eich cais ysgrifenedig ei asesu yn erbyn y pedwar maes asesu.

**Mae'r broses sifftio:**

- Yn canolbwyntio ar y dystiolaeth a ddarperir gennych
- Yn defnyddio'r un safon i bob ymgeisydd
- Yn broses nad yw'n eich cymharu ag eraill (cewch eich asesu yn erbyn y safon ar gyfer y rôl, nid yn erbyn ymgeiswyr eraill).

Bydd aelodau paneli yn asesu a yw eich cais yn dangos tystiolaeth sy'n bodloni'r safon ofynnol ym mhob un o'r pedwar maes.

Caiff ceisiadau eu hasesu ar yr hyn a ddywedwch, nid ar eich arddull ysgrifennu, eich hyder na'ch ffordd o gyflwyno gwybodaeth.

Bydd paneli yn chwilio am dystiolaeth glir eich bod yn bodloni'r safon ofynnol ym mhob un o'r pedwar maes.

## Cam 2 – Cyfweliad ac Asesiad

Mae'r cam hwn yn edrych ar eich tystiolaeth ar draws pob un o'r pedwar maes asesu gan ddefnyddio dwy elfen: cyfweliad strwythuredig ac ymarfer asesu Efelychu Bwrdd. Caiff tystiolaeth o'r ddwy elfen ei hystyried gyda'i gilydd.

### Cyfweliad strwythuredig

Mae'r cyfweliad strwythuredig yn canolbwyntio ar Gymhelliant, Gwasanaethu'r Cyhoedd ac Uniondeb, a gaiff eu hasesu drwy ddau gwestiwn cyson a ofynnir i bob ymgeisydd.

Efallai y bydd cyfwelwyr yn gofyn cwestiynau dilynol ichi i sicrhau bod eich tystiolaeth yn glir, ond ni chaiff unrhyw feini prawf, pwysoliadau na phrofion technegol newydd eu cyflwyno ar y cam hwn.

### Ymarfer Efelychu Bwrdd

Defnyddir yr ymarfer Efelychu Bwrdd i asesu'r tri maes asesu sy'n weddill drwy senario realistig ar lefel Bwrdd.

Canolbwyntir ar y ffordd rydych chi'n meddwl, yn rhesymu ac yn defnyddio crebwyll mewn cyd-destun llywodraethu yn hytrach nag ar eich arddull gyflwyno neu'ch arbenigedd technegol.

### Gwybodaeth a pharatoi

Byddwch yn cael senario Efelychu Bwrdd ymlaen llaw. Diben hyn yw sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i:

- Ddeall y cyd-destun a'r wybodaeth a ddarperir
- Paratoi safbwyntiau a chwestiynau cychwynnol
- Cymryd rhan yn y drafodaeth yn hyderus.

### Strwythur yr ymarfer Efelychu Bwrdd

**Bydd yr ymarfer yn dilyn fformat cyson:**

- 10 munud – myfyrdodau'r ymgeisydd.
- 20 munud – trafodaeth Bwrdd wedi'i hwyluso gyda'r panel.

**Yn ystod y drafodaeth, bydd y panel yn ystyried sut rydych chi'n:**

- Dadansoddi gwybodaeth ac yn nodi materion perthnasol
- Pwyso a mesur risgiau, ansicrwydd ac ystyriaethau sy'n croesdynnu
- Gwrando ar eraill ac yn cynnig her adeiladol
- Defnyddio crebwyll er budd y cyhoedd.

## Cam 3 – Camau asesu eraill (Pan gânt eu defnyddio)

Ar gyfer rhai rolau, gellir defnyddio elfen asesu ychwanegol os yw hyn yn briodol i natur y rôl ac os yw'n ychwanegu gwerth at y dystiolaeth sydd eisoes wedi'i chasglu.

Ni chaiff yr elfennau asesu ychwanegol hyn eu defnyddio ym mhob ymgyrch, ac ni fydd y rhan fwyaf o benodiadau yn cynnwys y cam hwn.

### Gall enghreifftiau gynnwys:

- Ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Ymarferion ym maes y cyfryngau neu gyfathrebu
- Proffilio seicometreg.

### Os defnyddir elfennau asesu ychwanegol:

- Bydd hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr hysbyseb swydd a'r wybodaeth i ymgeiswyr
- Byddwch yn cael gwybod ymlaen llaw
- Bydd canllawiau clir yn cael eu darparu o ran beth i'w ddisgwyl.

### Bydd unrhyw elfennau asesu ychwanegol yn:

- Gymesur â'r rôl
- Asesu tystiolaeth yn erbyn yr un pedwar maes fframwaith yn unig
- Defnyddio'r un dull trothwy (h.y. ni all cryfder mewn un maes wneud iawn am wendid mewn maes arall).

Bwriad asesiadau ychwanegol yw ategu, nid disodli, y cyfweliad a'r ymarfer asesu Efelychu Bwrdd.

## Arbenigeddau (gofynion sy'n benodol i'r rôl)

Mae rhai rolau yn gweithredu mewn amgylcheddau mwy cymhleth neu reoleiddiedig iawn (er enghraifft rolau cyllid, archwilio, clinigol, digidol, rheoleiddiol neu arwain ar draws y system).

Pan fydd rôl yn cynnwys cyd-destun penodol neu "arbenigedd", caiff hyn ei ystyried oherwydd ei fod yn effeithio ar y math o faterion, risgiau a phenderfyniadau llywodraethu y gallai fod angen i Fwrdd ymdrin â nhw. Nid yw'n golygu bod disgwyl i ymgeiswyr ddangos arbenigedd technegol manwl.

### Mae'n bwysig nodi:

- Nad yw arbenigeddau yn feini prawf asesu ychwanegol.
- Caiff pob ymgeisydd ei asesu yn erbyn yr un pedwar maes fframwaith, waeth beth yw ei gefndir neu ei brofiad proffesiynol.
- Bydd unrhyw gyd-destun sy'n benodol i'r rôl yn cael ei ystyried o fewn y meysydd fframwaith, nid ar wahân nac fel gofyniad ychwanegol.



# Defnyddio profiad bywyd yn effeithiol

Mae gan bawb brofiadau bywyd. Ceir y gwerth mwyaf pan all aelodau bwrdd ddefnyddio’r profiadau hynny i ehangu safbwyntiau, herio rhagdybiaethau, nodi risgiau neu gyfleoedd y gallai eraill eu methu, a manteisio ar ddealltwriaeth o’r byd go iawn i wneud penderfyniadau sy’n effeithio ar bobl yng Nghymru.

Mae croeso ichi dynnu ar brofiad bywyd yn eich cais neu’ch cyfweliad pan fydd hynny’n berthnasol. Mae llawer o ymgeiswyr cryf yn gwneud hynny.

**Gall profiad bywyd ddod o wahanol rannau o’ch bywyd, gan gynnwys:**

- Eich gwaith neu’ch cefndir proffesiynol
- Eich cyfranogiad cymunedol, gwirfoddol neu ddinesig
- Eich profiad o ddefnyddio, darparu neu oruchwylio gwasanaethau
- Eich cefndir diwylliannol, ieithyddol neu bersonol.

Yr hyn sy’n bwysig yw sut mae eich profiad yn eich helpu i esbonio’r cyfraniad y gallech ei wneud fel aelod bwrdd, nid manylion y profiad ei hun.

## Sut y gall profiad bywyd gefnogi eich tystiolaeth

**Efallai y byddwch yn defnyddio profiad bywyd i helpu i ddangos:**

- Eich cymhelliant a’ch gwerthoedd, gan gynnwys ymrwymiad i wasanaethu’r cyhoedd
- Sut rydych chi’n deall ac yn gweithio gyda gwahanol safbwyntiau
- Eich crebwyll mewn sefyllfaoedd go iawn
- Eich ymwybyddiaeth o gymunedau, diwylliannau neu faterion yng Nghymru
- Sut rydych chi’n nodi risgiau, yn herio rhagdybiaethau neu’n ystyried effaith.

Mae gan baneli ddiddordeb yn y ffordd rydych chi’n defnyddio profiad i lywio eich ffordd o feddwl, gwneud penderfyniadau a defnyddio crebwyll mewn cyd-destun llywodraethiant.

## Yr hyn nad oes disgwyl ichi ei wneud

**Nid oes angen ichi:**

- Rannu unrhyw beth preifat, sensitif neu bersonol
- Disgrifio profiadau yn fanwl os ydych chi’n anghyfforddus yn gwneud hynny
- Bod wedi profi adfyd i’ch profiad “gyfrif”
- Cyflwyno eich profiad mewn ffordd arbennig.

Nid oes un math o brofiad bywyd y mae paneli yn chwilio amdano. Bydd paneli yn ystyried profiad bywyd yn yr un modd â’r holl dystiolaeth arall, drwy edrych ar sut mae’n cefnogi’r asesiad o’r pedwar maes fframwaith.



# Y pedwar maes rydym yn eu hasesu

**Ar bob cam, byddwn yn eich asesu yn erbyn pedwar maes.**

Nid oes angen gwybodaeth dechnegol - mae'r disgrifiadau isod yn canolbwyntio ar y ffordd rydych chi'n ymdrin â'ch rôl fel aelod Bwrdd.

## A. Cymhelliant, Gwasanaethu'r Cyhoedd ac Uniondeb

Rydym eisiau deall:

- Pam mae gwasanaethu'r cyhoedd yn bwysig ichi
- Sut mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â thegwch, atebolrwydd ac ymddygiad moesegol
- Eich dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau a ddaw gyda swydd gyhoeddus.

Enghreifftiau y gallech eu defnyddio

- Yr adegau hynny pan wnaethoch chi weithredu'n foesegol neu gymryd cyfrifoldeb
- Yr achlysuron hynny pan wnaethoch chi sefyll i fyny dros degwch neu dryloywder
- Y profiadau a luniodd eich ymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd.

**Sut y gall profiad bywyd helpu**

Efallai yr hoffech dynnu ar brofiadau bywyd sydd wedi helpu i ffurfio eich gwerthoedd neu'ch dealltwriaeth o wasanaethu'r cyhoedd - ond nid oes angen ichi rannu unrhyw beth personol neu sensitif.

## B. Cydweithredu a Chynnig Her Adeiladol

Rydym eisiau gweld:

- Sut rydych chi'n gweithio gydag eraill i gyflawni nodau a rennir
- Sut rydych chi'n gwrando ar wahanol safbwyntiau
- Sut rydych chi'n ymdrin ag unrhyw anghytundeb yn barchus
- Sut rydych chi'n gofyn cwestiynau defnyddiol neu'n herio syniadau yn adeiladol.

Enghreifftiau y gallech eu defnyddio

- Gwaith tîm
- Cyfranogiad mewn pwyllgor neu grŵp
- Profiad o hyfforddi neu fentora
- Gwaith cymunedol neu wirfoddol

**Sut y gall profiad bywyd helpu**

Gall profiad bywyd neu brofiad cymunedol eich helpu i esbonio sut rydych chi'n deall gwahanol safbwyntiau, neu sut rydych chi wedi ymdrin â sgyrsiau anodd yn adeiladol.

## C. Chwilfrydedd, Crebwyll a Gwneud Penderfyniadau Moesegol

Mae gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- Sut rydych chi'n mynd i'r afael â phenderfyniadau anodd
- Sut rydych chi'n cydbwyso risgiau, blaenoriaethau a gwahanol safbwyntiau
- Sut rydych chi'n meddwl am yr effaith hirdymor, nid dim ond y pwysau tymor byr
- Sut rydych chi'n defnyddio gwybodaeth ac yn gofyn cwestiynau.

Enghreifftiau y gallech eu defnyddio

- Y penderfyniadau a wnaethoch chi yn y gwaith neu mewn rolau gwirfoddoli
- Y penderfyniadau personol a oedd yn gofyn am bwyso a mesur risgiau neu werthoedd
- Yr adegau hynny pan wnaethoch chi ddysgu o benderfyniad nad aeth fel y cynlluniwyd.

**Sut y gall profiad bywyd helpu**

Gall dealltwriaeth leol, profiad cymunedol neu heriau personol helpu i ddangos sut rydych chi'n deall risg, effaith, cyd-destun neu ganlyniadau.

## D. Ymwybyddiaeth o'r Dyfodol – Y Rôl, y Sefydliad a Chyd-destun Cymru

Rydym eisiau deall eich ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Yr hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud a pham mae'n bwysig
- Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r rôl benodol
- Cyd-destun Cymru - cymunedau, diwylliant, blaenoriaethau polisi, y Gymraeg a sut mae'r rhain yn siapio gwaith y sefydliad.

Enghreifftiau y gallech eu defnyddio

- Yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o ddarllen am y sefydliad
- Pam mae'r rôl o ddiddordeb ichi
- Dealltwriaeth o faterion sy'n bwysig yng Nghymru.

Ni fydd gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth arbenigol - dealltwriaeth feddylgar yw'r hyn sy'n bwysig.

**Sut y gall profiad bywyd helpu**

Gallwch fanteisio ar ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch cymuned, eich cefndir diwylliannol, eich gwaith yng Nghymru, eich profiad bywyd o wasanaethau, neu'ch dealltwriaeth o flaenoriaethau lleol.

# Gwerthuso

# Sut y caiff penderfyniadau eu gwneud

**Model asesu trothwy (h.y. ni all cryfder mewn un maes wneud iawn am wendid mewn maes arall)**
Mae hon yn broses asesu sy'n seiliedig ar drothwy.

**Mae hyn yn golygu:**

- Asesir tystiolaeth yn erbyn y safon ddiffiniedig ar gyfer pob maes fframwaith.
- Ni all cryfder mewn un maes wneud iawn am fwlch mewn maes arall.
- Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y meini prawf, nid yn erbyn ei gilydd.
- Mae sgoriau yn seiliedig ar dystiolaeth, nid argraff.

# Canlyniadau Sgorio

Caiff eich cais ac unrhyw asesiadau eu hystyried yn erbyn canlyniadau sgorio clir. Mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n deg, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Efallai y clywch eich perfformiad yn cael ei ddisgrifio gan ddefnyddio'r termau canlynol:

**Rhagori –** Enghreifftiau clir gyda thystiolaeth dda sy'n uniongyrchol berthnasol i'r rôl ac sy'n dangos bod y fframwaith wedi cael ei roi ar waith yn gryf.

**Cyflawni –** Tystiolaeth berthnasol sy'n bodloni'r safon ofynnol ar gyfer y rôl.

**Heb gyflawni eto –** Nid yw'r dystiolaeth yn dangos y gallu angenrheidiol.

**Mae hwn yn fodel nad yw'n eich cymharu ag eraill ac sy'n seiliedig ar ddull trothwy:**
Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y safon, nid ei gilydd.
Ni all cryfder mewn un maes wneud iawn am fylchau mewn maes arall.



# Adborth

**Mae adborth yn rhan bwysig o broses penodiadau cyhoeddus deg, dryloyw a chadarn. Bydd pob ymgeisydd yn cael adborth ar ei gais neu ei asesiad. Bydd lefel y manylder a ddarperir yn adlewyrchu'r cam a gyrhaeddwyd yn y broses.**

### Cam 1 – Sifftio ceisiadau

Os byddwch yn aflwyddiannus ar y cam sifftio ceisiadau, byddwch yn cael adborth byr, ffeithiol sy'n cadarnhau:

- Canlyniad y broses sifftio.
- Pa faes / meysydd fframwaith nad oedd yn bodloni'r safon ofynnol ar y cam hwn.

### Cam 2 – Cyfweliad ac Ymarfer Efelychu Bwrdd

Os byddwch yn symud ymlaen i'r cam cyfweliad ac ymarfer efelychu bwrdd, byddwch yn cael adborth manylach. Bydd yr adborth hwn yn:

- Cwmpasu pob un o'r meysydd fframwaith.
- Esbonio dyfarniad y panel gan ddefnyddio'r meini prawf trothwy cyhoeddedig.

## Sut y caiff adborth ei ddarparu

### Bwriad yr holl adborth yw bod:

- Yn barchus ac yn deg.
- Yn glir ac yn ffeithiol.
- Yn gyson â'r fframwaith asesu cyhoeddedig.

Caiff adborth ei baratoi fel y gellir ei rannu'n agored ag ymgeiswyr.

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Penodiadau arwyddocaol a chraffu cyn penodi.

Caiff rhai penodiadau cyhoeddus eu cyfrif yn benodiadau arwyddocaol oherwydd natur y rôl, lefel y cyfrifoldeb dan sylw, neu'r effaith y mae'r sefydliad yn ei chael ar y cyhoedd.

Mae penodiadau arwyddocaol fel arfer yn cynnwys:

- Arwain cyrff cyhoeddus proffil uchel neu ddylanwadol.
- Rolau sydd â chyfrifoldeb sylweddol am arian cyhoeddus, rheoleiddio, diogelwch neu hyder y cyhoedd.
- Swyddi lle mae atebolrwydd a thryloywder yn arbennig o bwysig.

Os caiff rôl ei nodi'n benodiad arwyddocaol, bydd hyn yn cael ei wneud yn glir i ymgeiswyr yn ystod yr ymgyrch.

## Craffu gan bwyllgor cyn penodi

Ar gyfer penodiadau arwyddocaol penodol, gellir gwahodd yr ymgeisydd a ffefrir i ymuno â sesiwn graffu cyn penodi gydag un o bwyllgorau'r Senedd cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau'n ffurfiol.

### Mae craffu cyn penodi:

- Yn rhan safonol o'r broses ar gyfer rhai rolau cyhoeddus uwch.
- Yn rhoi cyfle i'r pwyllgor holi'r ymgeisydd a ffefrir am ei brofiad, ei ddull gweithredu a'i addasrwydd ar gyfer y rôl.
- Yn cefnogi tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd mewn penodiadau.

### Os bydd craffu cyn penodi yn digwydd:

- Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod yn gynnar yn y broses.
- Darperir arweiniad a chefnogaeth i helpu ymgeiswyr i ddeall beth i'w ddisgwyl.
- Mae presenoldeb yn sesiwn y pwyllgor yn un o ofynion y penodiad.

Rôl y pwyllgor yw cynghori. Mater i'r awdurdod penodi yw'r penderfyniad terfynol am y penodiad.

## Addasiadau Rhesymol

Rydym wedi ymrwymo i wneud ein proses recriwtio yn deg, yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Mae addasiadau rhesymol yn newidiadau sy'n dileu rhwystrau ac yn cefnogi ymgeiswyr i gymryd rhan ar sail gyfartal. Gallwch ofyn am addasiadau ar unrhyw gam o'r broses, gan gynnwys pan fyddwch yn gwneud cais neu ar ôl cael eich gwahodd i gyfweliad. Nid oes angen ichi ddarparu diagnosis – bydd esbonio eich anghenion hygyrchedd yn ddigon. Caiff pob cais ei drin yn sensitif ac yn gyfrinachol. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am addasiadau, ar gael ar ein gwefan.

# Nodyn i Gloi

**Rydym wedi ymrwymo i wneud penodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn agored, yn deg ac yn hygyrch.**

Nid oes angen profiad blaenorol o fod yn aelod o fwrdd i wneud cais. Mae gan baneli ddiddordeb yn y ffordd rydych chi'n meddwl, y gwerthoedd rydych chi'n eu harddel, a'r cyfraniad y gallech ei wneud er budd y cyhoedd.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cais, canolbwyntiwch ar yr hyn y byddech chi'n ei gyfrannu at y rôl – mae eich profiad, eich persbectif a'ch barn i gyd yn bwysig. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a chymuned ledled Cymru.



© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54584, ISBN digidol 978-1-83745-736-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg